WG 35.8 200

# Coffadwriaeth y Cyfiawn:

NEU

# FARWNAD,

Er Côf

AM FARWOLAETH Y DUWIOL AR PARCH.
Mr. *RICHARD TIBBOTT*,
YR HWN A FU YN WEINIDOG HIR
FLYNYDDAU I EGLWYS YR YMNEILL-
DUWYR YN LLANBRYNMAIR, YN SIR
DREFALDWYN;
Ac a
HUNODD YN YR ARGLWYDD AR DDYDD
SABBATH, Y 18 O FIS MAWRTH, YN Y
FLWYDDYN 1798. O FEWN YCHYDIG
WYTHNOSAU I BEDWAR UGAIN OED.

---

Gan JONATHAN POWELL.

---

GEN. xxv. 8.

Ac a fu Farw mewn Oed teg, yn hen, ac yn gyflawn
o ddyddiau, ac efe a gafglwyd at ei bobl.

---

TREFECCA:
ARGRAPHWYD YN Y FLWYDDYN,
M,DCC,XCVIII.

LW 4042.
X20531649I

## EGWYDDOR *i'r* ANLLYTH'RENNOG
## *i ddyſgu Darllen.*

**A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.**

**A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.**

***A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.***

***A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ st th u w y.***

### Y Llafariaid neu'r Bogeiliaid.

a e i o u w y.

### Yr holl Lyth'rennau eraill a elwir Cydſeiniaid.

Ab eb ib ob ub wb yb
ac ec ic oc uc wc yc
ach ech ich och uch wch ych
ad ed id od ud wd yd
add edd idd odd udd wdd ydd
af ef if of uf wf yf
aff eff iff off uff wff yff
ag eg ig og ug wg yg
ang eng ing ong ung wng yng
al el il ol ul wl yl
all ell ill oll ull wll yll
am em im om um wm ym
an en in on un wn yn
ap ep ip op up wp yp
aph eph iph oph uph wph yph
ar er ir or ur wr yr
as es is os us ws ys
at et it ot ut wt yt
ath eth ith oth uth wth yth

Ba be bi bo bu bw by
ca ce ci co cu cw cy
cha che chi cho chu chw chy
da de di do du dw dy
dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
fa fe fi fo fu fw fy
ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ga ge gi go gu gw gy
ha he hi ho hu hw hy
la le li lo lu lw ly
lla lle lli llo llu llw lly
ma me mi mo mu mw my
na ne ni no nu nw ny
pa pe pi po pu pw py
pha phe phi pho phu phw phy
ra re ri ro ru rw ry
ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
ta te ti to tu tw ty
tha the thi tho thu thw thy

Frodyr Anwyl,

LLAWEN ddiſgwyliaf am weled gwell a mwy barddonol doniau, wedi eu goſod ar waith i ganu coffadwriaeth am ddyn ag oedd mor barchus, ac mor ddiwyd, ac mor dderbyniol, ac mor ffyddlon dros ei Dduw, ag y bu yr enwog Richard Tibbott, a hynny tros faith a hir Flynyddau; beth bynnag a fyddo'r canlyniad, a fydd i eraill ganu neu beidio, gobeithio na throſeddais yn erbyn neb, ond y cyfriw ſydd naill ai rhy gall neu rhy grefyddol, neu ſydd a rhy fach o amſer ganddynt i ddarllen, neu yntau nad ydynt yn archwaethu pethau a fyddo ar gân, neu yntau eu bod yn barnu mai gauddibennion ſydd yn cymmell dynion i ganu, a thrwy hynny, rhag bod yn gyfrannog o'u pechod, pe digwyddau iddynt fod mor llawagored ag ymadel â cheiniog i bwrcaſu MARWNAD, er iddynt i gael ei llawn werth; Nid wyf yn diſgwyl na bydd i minnau fel eraill ag ſydd yn delio a'r Argraphwaſg, i gael gogan o'r cornel hyn, ond mae yn hawſach i mi ddioddef na 'u diwygio hwy.———Mi wnes fy ngorau mae'n ddrwg gennyf na allaſwn gânu yn well er côf am gyfaill mor anwyl genny f ag oedd y Tad Parchedig Mr. R. Tibbott, yr hwn a dynnodd ei gwys yn gywir, a gariodd y iau yn aeddfwyn, a ddygodd ei groes yn yſtig, a redodd ei yrfa yn rheolaidd, ac a'i gorphenodd yn yr Arglwydd.———COFFADWRIAETH Y CYFIAWN SYDD FENDIGEDIG.

Praidd a Bugail gaffo eu porthi
A mêr a brasder pûr y gair
Doniau teithiol a sefydlog
A fyddo o fendith yn eu plith
I'w gwir addasu a'u haddfedu
Fyn'd i'r orphwysfa Nefol byth.

18 Duw fo'n dâd i'r plant ymddifaid
A adawodd Tibbott ar ei ôl
Y mae rhai o'r rhei'ni yn ifaingc
O Arglwydd cymmer hwy i'th gol;
Yn ddynion duwiol byddo ei eiddo
Yn feibion ac yn ferched oll
Fel caffo eu cwrddyd ddydd y cyfri
Heb un o honynt fyn'd ar goll.

19 O Arglwydd pan yr wyt yn galw
Y gweithwyr ffyddlon tu a thre
O gwrando'n cwyn a danfon lawer
I'r maes i weithio yn eu lle
Tydi o Dduw yn unig elli
I ddonio a rhoi ffyddlondeb llwyr
I weithio yn ddyfal glân a dichlyn
Ac i ddilyn hyd yr hwyr.

20 Pedwar ugain oedd o Flwyddau
Ond rhyw ychydig bychan iawn
Pan yr aeth ei enaid adreu
A'r ddydd Sabbath y prydnhawn
Oed ein Harglwydd mîl a saith-gant
Naw o ddegau ac wyth y'm bron
Mis Mawrth y trydydd-ddydd ar bumtheg,
Ymadawodd ef a'r ddaear hon.

21 Ymynwent Llanbrynmair mae'n gorwedd
Yn dawel iawn mewn gwely pridd
Caiff yno gysgu hûn yn esmwyth
Nes gwawrio yr Adgyfodiad ddydd

Ac

Ac yna'r Barnwr ar y cwmmwl
A floeddia yn yr udgorn fry
A Thibbott gwyd yn anllygredig
Fyn'd at y bendigedig lu.

22 Llawn ddau parth o'i ysbryd addfwyn
Ddifgynno ar lawer yn ein dydd
Sef ysbryd rhydd i efangylu
I bob rhyw rai o deulu'r ffydd,
Fel byddo'r brodyr o bob enwau
Gwahanol farnau'n fwy cyttun
Yn cyd weddio yn cyd bregethu
Yn cyd dderchafu Mab y dyn.

23 Na fydded mwy i blant y Brenin
I ddal ryw ŵg y naill i'r llall
Gadawed pawb o feibion Sion
Yr arfer hon i blant y fall
Yr rhai a garwyd â'r un cariad
Y rhai a brynwyd â'r un gwaed
Boed mwy o heddwch ac anwyldeb
Rhwng etifeddion Canaan wlad.

24 O Arglwydd Nef prysura'r dyddiau
Daw'r llew a'r oen i bori ynghyd
Y fuwch a'r arth a'r llewpard hefyd
A'r 'nifail brâs fod o'r un fryd,
Gwahanol enwau a chenedlaethau
Duw dwg i gredu'r 'fengyl lân
Gwybodaeth Duw a lanwo'n daear
A yna aed y byd ar dân.

25 Mwy o'r nef fo ar y ddaear
Efengyl gras fo'n llanw'r byd
O Iesu llwydda 'th holl genhadon
I alw gwerth y gwaed ynghyd

Pob

Pob enwau dynol gaffo eu sathru
Ac enw'r Iesu fyddo yn ben,
A Seion sanctaidd fo'n cynhyddu;
A minnau a dd'weda mwy Amen.

HYMN. *Yn y byd gorthrymder a gewch.*

1 GORTHRYMDER ar orthrymder
Sy 'nglyn wylofain trist
Ac ergyd ar ol ergyd
I ffyddlon weision Crist
Ond etto wedi'r cyfan,
Pob ergyd sy'n ei le,
I guro'r etifeddion
Nês nês i deyrnas Ne.

2 Pam fy enaid y disgwyli,
Tra yma ar y llawr,
I gael amgenach triniaeth,
Na'th anwyl Iesu mawr;
Os cwrddodd pen y teulu,
A gorthrymderau blin,
Diau mai triniaeth arw,
A gaiff ei blant bob un.

3 Gorthrymder sydd o uffern,
Gorthrymder sydd o'r byd,
Oddiwrth gau Frodyr hefyd,
A nghalon gas ynghyd;
O Dduw 'nol dy addewid,
'Rho nerth yn ol y dydd,

Rhag

Rhag i mi ddigalonni,
Cryfha cryfha fy ffydd.

4 Gwynfyd na wawriau'r boreu,
Gael rhoddi'm beichiau i lawr,
Mae ynof ryw ddymuniad,
Am wel'd yr hyfryd awr;
'Gael dod i blith fy mrodyr,
Sy o fewn i'r ddinas bur,
Ddihangodd o'u gofidiau,
Cystuddia yr anial dir.

5 Wel f'enaid gwan bydd dawel,
A disgwyl ronyn bach,
Os wyt yn glwyfus yma,
Yn Seion byddi yn iach;
Pan delo'r oriau i fynu,
A benderfynwyd draw,
I gario'r cleddau gwaedlyd,
Cai balmwydd yn dy law.

## TERFYN.